Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Public Health Wales

# Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach

## Astudiaethau Achos

Mehefin 2021





Mae tair rhan i'r adnodd hwn:

- Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach
- Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach: Templed Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Amgylcheddau Pwysau Iach
- Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach: Astudiaethau Achos (Y ddogfen hon)

Dyfyniad a awgrymir: Johnson, T a Green, L, (2021). Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd.

## Cydnabyddiaeth:


Addaswyd y Templed Canllaw Cynllunio Atodol ac Adran 2 (tudalennau 15-24) 'Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach' o '*Using the planning system to promote healthy-weight environments'* (2020) gan Public Health England [1]

Hoffai'r awduron fynegi eu diolchgarwch i Lucy O'Loughlin, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru, am ei harbenigedd a'i mewnbwn.

Hoffem ddiolch hefyd i gydweithwyr a gweithwyr proffesiynol a fu o gymorth mawr gyda'u harbenigedd, yn ogystal â'r adborth a ddarparwyr gan y sawl a ddaeth i'r gweithdai.

- Sumina Azam, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Bob Baines, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Alison Black, Llywodraeth Cymru
- Huw Brunt, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Bronia Bendall, Cyfoeth Naturiol Cymru
- Michael Chang, Public Health England
- Gemma Christian, Llywodraeth Cymru
- Jennifer Davies, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sarah Grimley, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Ed Huckle, Public Health England
- Kristian James, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Delyth Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sarah Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sue Mably, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Richard Matthams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Martin McVay, Llywodraeth Cymru
- Bethan Morris, Cyngor Sir Ddinbych
- Andy Netherton, Public Health England
- Lee Parry-Williams, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Beth Preece, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Chris Smith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Danielle Smith, Cadwyn Gyflenwi'r GIG
- Gareth Stacey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Vicky Weale, Cyngor Sir Y Fflint
- Stuart Williams, Cyngor Sir Caerdydd
- Cheryl Williams, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen Astudiaethau Achos hon yn cyd-fynd â'r brif ddogfen, 'Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach'. Mae'n cynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos o Gymru a'r Deyrnas Unedig mewn perthynas â:

- Buddsoddi mewn Canol Trefi a'r Stryd Fawr
- Adfywio Trefi
- Busnesau Cludfwyd Poeth
- Datblygiadau Preswyl
- Seilwaith Gwyrdd
- Ardaloedd Chwarae

Dylid ei ddarllen ar y cyd gyda'r dystiolaeth a gyflwynir yn adnodd y brif ddogfen (gweler Adrannau, 2, 3, 4, 5, 6 a 7).

## Buddsoddi mewn Canol Trefi a'r Stryd Fawr

**Astudiaeth Achos A** **'Trawsnewid Trefi a 'Canol Trefi'n Gyntaf'**

https://llyw.cymru/rhaglen-90-miliwn-i-drawsnewid-trefi-yng-nghymru

Lansiwyd y ddau bolisi hwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr2020 fel dulliau cydweddol i adfywio canol trefi [103]. Nod Trawsnewid Trefi yw buddsoddi £90 miliwn mewn trefi ar gyfer:

- Prosiectau adfywio;
- Taclo adeiladau segur ac a danddefnyddir;
- Creu mannau gwyrdd;
- Cynyddu bioamrywiaeth.

Nod 'Canol Trefi'n Gyntaf' yw adfywio trefi trwy ddewis, pan fo'n ymarferol, i leoli adeiladau a reolir gan ALl, megis swyddfeydd, ysgolion neu siopau dan yr unto mewn canol trefi.  Un enghraifft o hyn yw'r cynigion gan Gyngor Abertawe i adleoli ei swyddfeydd sector cyhoeddus o'u safle glan môr presennol i Ganolfan Ddinesig newydd yng nghanol y ddinas, gan ddod â hyd at 11,000 o weithwyr i mewn i ganol y dref, gyda chynlluniau i annog swyddfeydd sector preifat i wneud yr un peth [104].

## Astudiaeth Achos C Drift Park – Y Rhyl

https://dcfw.org/drift-park-denbighshire/

Creu 'parc' glan môr fel rhan o adfywio Gorllewin Y Rhyl:

- Cynnig a ddatblygwyd trwy broses ymgynghori â'r cyhoedd gynhwysfawr;
- Arddangosfa 3 diwrnod ac adborth gyda'r nod o gynyddu ymdeimlad o 'berchnogaeth';
- Caiff y parc ei rannu i 5 gardd loches;
- Cyfleusterau hamdden gan gynnwys golff bach a pharc dŵr.



Ffigur 1: Drift Park,Y Rhyl (DCFW)

# Adfywio Trefi:

## Astudiaeth Achos B Tŷ Pawb, Wrecsam

https://dcfw.org/ty%cc%82-pawb-wrexham/

Mae Tŷ Pawb yn ganolfan ddiwylliannol, cymunedol a'r celfyddydau yn Wrecsam, a agorwyd yn 2018. Bu'r prosiect yn ymwneud ag adleoli canolfan y celfyddydau i faes parcio aml-lawr a neuadd farchnad o'r 1990au, yng nghanol y dref. Galluogodd hyn ehangiad a chyfleusterau newydd megis orielau celf, stiwdios artistiaid, stondinau marchnad, gofodau perfformio, canolfan ddysgu, caffis a bariau. Mae'n amlygu sut y gellir addasu seilwaith cyhoeddus segur mewn canol trefi i gyfrannu at lesiant y gymuned leol ac at yr economi hefyd.

- Y nod yw dod â bywyd yn ôl i ganol y dref trwy droi adeiladau segur at ddiben newydd;
- Amrywiaeth o arddangosfeydd a digwyddiadau i ennyn diddordeb sector eang o'r gymuned;
- Yn cyfrannu at yr economi a chyfleoedd cyflogaeth yn lleol.

## Astudiaeth Achos Ch Menter Treftadaeth Treflun Dinbych - Sir Ddinbych

https://dcfw.org/denbigh-townscape-heritage-initiative-denbighshire/

Adfywio canol y dref hanesyddol rhwng 2000 a 2006, i ailennyn diddordeb y boblogaeth leol a chreu gofodau at ddefnydd masnachol a phreswyl. Teimlwyd y gellid ymdrin â dirywiad ffisegol, cymdeithasol ac economaidd Dinbych ar yr un pryd i adfywio'r hyn a oedd yn flaenorol yn dref fywiog yn gymdeithasol, yn diwylliannol ac yn fasnachol.

- Adfywio adeiladau a seilwaith canol y dref;
- Adfywio adeiladau segur at ddibenion diddordeb diwylliannol a dinesig;
- Cynyddu cyfleoedd cyflogaeth yng nghanol y dref;
- Uwchraddio cyfleusterau preswyl, addysgol a chymunedol.

## Busnesau Cludfwyd Poeth

**Astudiaeth Achos D** **Wrecsam: Pyrth Gwahardd Cludfwyd Poeth**

https://www.wrecsam.gov.uk/service/nodiadau-cyfarwyddiadau-cynllunio-lleol

Mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam CCA ym 1994 a gydnabuodd y nifer fawr o Fusnesau Cludfwyd Poeth (BCP) yng nghanol y dref a'u heffaith bosib ar iechyd. Ei nod oedd lleihau'r nifer o BCP yng nghanol y dref, mewn canolfannau siopa, ardaloedd preswyl ac o fewn 400 metr i ysgolion, mewn diwygiad yn 2011. Yn y fwrdeistref sirol roedd bron 60% o ysgolion wedi'u lleoli'n agos i BCP, gan gynyddu'r temtasiwn i blant. Yn fwy cyffredinol, roedd dwysedd BCP yn gysylltiedig â chynnydd mewn sbwriel, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thraffig.

- Cydnabuwyd y rôl gadarnhaol y gall nifer cymesur o BCP ei chwarae o ran hamdden a chefnogaeth;
- Amlygwyd effeithiau negyddol BCP ar gymeriad canol trefi, trigolion ac iechyd;
- Cyflwynwyd gwaharddiad 400 metr ar sefydlu BCP newydd o amgylch ysgolion i gyfyngu mynediad disgyblion i fwyd afiach.

## Datblygiadau Preswyl:

**Astudiaeth Achos Dd** **Datblygiad Pentref Gardd Loftus**

https://www.poblgroup.co.uk/our-developments/loftus-garden-village/

https://dcfw.org/wp-content/uploads/2015/12/DesignReview_2015_online.pdf

Adfywio ardal yng Nghasnewydd:

- Wedi'i datblygu gan ddefnyddio egwyddorion y mudiad Dinas Ardd;
- Ardaloedd chwarae gyda mynediad hwylus;
- Seilwaith gwyrdd;
- Cymysgedd o dai preifat a chymdeithasol;
- Wedi'i integreiddio i gymuned ehangach Casnewydd.





Ffigur 2: **Pentref Gardd Pirelli [105, t.25]**

## Astudiaeth Achos E Glan Llyn, Casnewydd

http://www.newport.gov.uk/cy/About-Newport/Regeneration/Glan-Llyn.aspx

Prosiect £1bn dros 20 mlynedd i adeiladu cymuned gynaliadwy ar safle hen waith dur gyda 4,000 o gartrefi newydd a chan arwain at 6,000 o swyddi newydd:

- Seilwaith gwyrdd a glas;
- Ardaloedd chwarae gyda mynediad hwylus;
- Mynediad hwylus i gyflogaeth;
- Llwybrau beicio, llwybrau troed, gwasanaethau bws, parcio a theithio;
- Parc themâu dŵr a chyfleusterau hamdden.




Cynllun o Safle Glan Llyn: http://www.glanllyn-newport.co.uk/site/

Ffigur 3: Glan Llyn

# Seilwaith Gwyrdd:

## Astudiaeth Achos F Greener Grangetown

https://www.arup.com/projects/greener-grangetown

System draenio cynaliadwy mewn cymdogaeth yng Nghaerdydd i ddileu cyfeintiau uchel o ddŵr glaw. Mae lleoli ardaloedd gwyrdd o blanhigion a choed gwydn yn strategol yn dal ac yn hidlo'r dŵr yn naturiol i Afon Taf gerllaw. Yn flaenorol roedd y dŵr yma'n gorlwytho'r system garthffosiaeth ac roedd angen ei bwmpio i ganolfan trin dŵr 8km i ffwrdd am gost sylweddol:

- Seilwaith o 108 o 'gerddi glaw' i ddal dŵr a gwella llesiant trigolion;
- Lleoli gwyrddni a mesurau'n strategol i wella'r amgylchedd beicio;
- Creu 'stryd feicio' 555 metr ar hyd Arglawdd Taf;
- Cydweithio: peirianyddion, Cyngor Caerdydd, Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Astudiaeth Achos Ff** **Fitz Park Llundain**




Ffigur 4: Fitz Park Llundain https://www.arup.com/projects/fitzpark

Creodd y prosiect hwn barc bach yn yr hyn a oedd yn arfer bod yn gilfach lwytho ar stryd brysur yn Llundain. Darparodd hyn le i'r gymuned leol, gweithwyr ac ymwelwyr ymlacio, cael saib a chymdeithasu. Mae'n enghraifft o 'wyrddni trefol' a all gyfrannu at deithio llesol a llesiant.

- Gwella ymddangosiad ardal a hyrwyddo ymdeimlad o le;
- Annog bioamrywiaeth trwy blannu;
- Enghraifft o sut y gellir defnyddio mannau bach yn effeithiol.

## Ardaloedd Chwarae

**Astudiaeth Achos G** **Play Streets Playing Out**

https://playingout.net/

Grŵp elusennol a chymunedol sydd â chyngor ar sut i drefnu cau strydoedd preswyl dros dro i greu 'strydoedd chwarae' ar gyfer plant. Mae'r manteision yn cynnwys gwella iechyd a llesiant plant, yn ogystal â chydlyniant cymunedol ar gyfer trigolion a chymunedau:

- Yn hyrwyddo cau strydoedd yn rheolaidd am gyfnod byr ar gyfer chwarae ar y strydoedd;
- Cyfle i blant a theuluoedd chwarae yn yr amgylchfyd cyfagos;
- Cyfle am ryngweithio a chydlyniant cymunedol.